

Barddoniaeth Bl.7 Gwyliau

Beirniad – Huw Carrod

Derbyniais dri deg o gerddi amrywiol ar y testun 'Gwyliau'. 'Roedd y mwyafrif wedi cyfansoddi cerddi traddodiadol mewn odl a'r gweddill wedi mentro i faes y canu rhydd. Ar y cyfan 'roedd y safon yn ddigon derbyniol ac ôl ymdrech a dychymyg yn y gwaith.

Cymru 123. Cerdd ystwyth a hwyliog wedi ei chynllunio'n ofalus - odli'n ddiymdrech wrth ein tywys o gwmpas y byd. Ambell i wall esgeulus yn y teipio. Y pennill olaf yn annisgwyl ond dyma uchafbwynt y gerdd. Yn rhagori o ryw drwch blewyn i gerdd *Uncorn Jones* - yntau/hithau eto'n gwbl gartrefol gyda'r odl ac yn tynnu darlun byw o'r golygfeydd a 'r profiad o ddringo'r Wyddfa - cerdd rythmig a delweddau cofiadwy. Fel *Cymru 123* mae *Uncorn Jones* yn gorffen gydag apêl i bawb wario gwyliau yng Nghymru.

Mae Daffodil a Jac y Jwc yn feirdd medrus - y ddau yn wahanol i'r ddau uchod yn mentro i'r Cyfandir am eu gwyliau - yr un i wlad Siôn Corn a'r llall i Sbaen - digon o gyffro yn y cerddi a delweddau cofiadwy. Llinellau' cloff' yng ngerddi'r ddau ond ymdrechion clodwiw er hynny.

Mae gan Y Cymro ddychymyg byw a geirfa gyfoethog -patrwm diddorol i'r gerdd - digon o addewid yma . Mae Oen Bach wedi cyfansoddi pennill i bob mis o'r flwyddyn - tipyn o gamp - yn feistr ar yr odl a'r cwpledi'n llifo'n ddiraffferth .Er gwaethaf cam dreiglo a cham sillafu hwnt ac yma deuddeg cwpled o safon gyson -da iawn. Son am brofiadau ysgol mae Sosban yn ei cerdd/ei cherdd - mynegiant naturiol a diymdrech - diweddglo trist wrth i'r newyddion dorri fod yr ysgol fach i gau wedi'r gwyliau.

Digon o amrywiaeth yng ngerdd Dim Clem wrth iddo/iddi restru rhai o ryfeddodau'r byd - llinellau'n llifo a'r odli'n naturiol trwyddi draw - ambell i linell 'gyffredin' ond cynllun da a digon o addewid yma.

Cerdd Seren yn mynnu sylw - llythrennau coch ar gefndir glas sy'n cynrychioli'r mor. Rhythm hwyliog i'r gerdd a digon o gyffro ac afiaith gwyliau glan mor. Yn yr un modd mae Hari yn ein hargydoeddi gyda'i ddisgrifiadau o wyliau glan mor - ambell i linell yn fyr o sillaf- y pennill olaf yn siomedig o'i gymharu â'r rhai blaenorol. Cerdd rydd gan Ar Arennig - cynllun da, yn feistr geiriau- delweddau byw ond hwyrach gormod o ôl ymdrech yn y disgrifio. Breuddwydio am wyliau gwnaeth Sioni Winwns mewn cerdd ysgafnodli heb ymdrech a diweddglo da i'r gerdd. Hoffais gerdd arbrofol Daniel

wrth iddo/iddi adrodd hanes ffoaduriaid yn chwilio am loches-llinellau byr yn mynnu sylw'r darlennydd ac yn ychwanegu at ddrama'r stori. Mae gan Brophy hefyd stori ddramatig l'w hadrodd wrth iddo gerdded strydoedd Harare yn Zimbabwe a phrofi trais plismyn Mugabe. Y mynegiant yn tueddu i fod yn rhyddieithol - diffyg llyfnder yn y llinellau - deunydd stori fer fan yma dybiwn i.

Gwyliau mewn carchar yw thema cerdd Lleucu Llwyd - digon o gydymdeimlad gyda charcharorion adeg y Nadolig. Mynegiant hwnt ac yma yn tynnu oddi wrth y gerdd ond er gwaethaf y thema drist digon o addewid yn yr ysgrifennu.

Ymdrechion digon cymeradwy gan Flodyn Tatws a Siôn Blewyn Coch - yr olaf yn ddigon hapus i wario ei wyliau adre ar ei aelwyd gysurus. Mwynheais gerdd Arosfa, yn enwedig ei ddisgrifiadau o wyliau moethus ym mhellafoedd byd - elfen o dristwch yn y gerdd gan i'r bardd golli ei swydd a'i gartref ac mae'n byw bellach mewn blwch carbod 'cardboard' ar y stryd. Digon o gyffro yng ngherdd Patch - gormod o linellau gwan er hynny yn difetha'r gwaith. Cerdd fer a chynnil gan Stwffin yn adlewyrchu dychymyg byw y bardd- lle i wella er hynny ar y gwaith gorffenedig.

Mae Rhiangoll yn agor y gerdd yn dda ond braidd yn ystrydebol yw'r cynnwys a'r mynegiant ar y cyfan. Hoffais y cwpled olaf : *Llenwi fy mol a hufen ia/ Dyna sy'n creu haf go dda*. Mae Cymraes Fach yn edmygu staff ward mewn ysbyty am eu gwaith diflino yn trin cleifion - amau rywsut pa mor berthnasol yw'r gerdd i'r testun. Mae Dyn Eira yn odlwr greddfol - llinellau syml a llyfn - ambell i wall treiglo- colli tir yn yr ail bennill ond diweddglo campus. Braidd yn ddifflach oedd ymdrech Bryn Peters - y mynegiant heb daro deuddeg - digon o le i wella ar y gerdd.

'Gwyliau yn fy mreuddwyd' yw teitl cerdd Robin- syniad anghyffredin a dweud y lleiaf -g wario gwyliau mewn 'paradwys siocled'. Cynllun da i'r gerdd 5 pennill -yr olaf yn dwyn y breuddwydiwr yn ôl i'r byd go-iawn. Digon o addewid yma - ambell i linell gyffredin yn tynnu oddi ar y gwaith gorffenedig.

R.Wonderland - wedi dewis 'font' bach iawn ac fel canlyniad mae'r gerdd yn anodd ei darllen - y cynnwys yn ddryslyd. Gofidio am y bobl ddigartref a di-waith mae Pwynt Bonws - y rhai hynny sy'n methu fforddio mynd ar wyliau. Da yw deall bod ein hieuenctid yn poeni am bobl o'r fath, ond er cryfed y neges nid yw'r gerdd o ran ei ffurf a'i mynegiant rywsut yn argyhoeddi. Tuedd I fod yn rhyddieithol yw ymdrech Siocled Glas wrth iddo/iddi ein

rhybuddio am yr hyn a all fynd o'i le ar wyliau- cychwyn yn addawol ond mae'r awen yn cilio yn yr ail bennill.

Digwyddiadau anghyffredin a dramatig yn cymeryd lle yng ngherdd Y Siarc wrth i'r gath fynd yng ngafael a siarc yn y môr. Mae Y Siarc yn storiwr da ac yn llwyddo i gynnal ein diddordeb tan y diwedd.

Cynllun da i *gerdd Anghofus* - mynegiant cynnil a naturiol gan fardd sy'n dangos gryn dipyn o addewid. Yn wahanol i'r mwyafrif o'r cystadleuwyr wnaeth fentro ar y testun, mae Anghofus yn ddigon hapus i weld y gwyliau yn dod i ben ac i ddychwelyd i'r ysgol: *Cadw at y drefn arferol, sef nol i'r ysgol/Meddaf ar ddiwedd fy ngwyliau i.*

Y chwe cherdd a ddaeth i'r brig oedd - *Dim Clem, Hari, Jac y Jwc, Cymru 123, Unicorn Jones a Daffodil*. Mae'r wobwr gyntaf yn mynd i *Gymro 123* am gerdd syml a swynol sy'n gorffen yn annisgwyl wedi'r breuddwydio' am wyliau ar gyfandiroedd pell gyda geiriau Mam: *Byddwn ar y prom yn Aber/Yn joio yn y man'* Unicorn Jones sy'n hawlio'r ail wobwr a Jac y Jwc y drydedd wobwr.

Diolch i'r tri deg ohonoch am eich cerddi a gobeithio y byddwch yn parhau i farddoni i'r dyfodol- ac i gystadlu yn yr Eisteddfod wrth gwrs !